Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Brynrefail**
**Llanrug**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 4AD**

**Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Ceri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Catherine Evans | Arolygydd Tîm |
| Rhian Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Simon Davies | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Brynrefail wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Nhachwedd 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad.

Ers amser yr arolygiad craidd, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4 ym mhob un o'r prif ddangosyddion allweddol a'r pynciau craidd unigol wedi gwella. Er bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da mewn llawer o'r dangosyddion, mae perfformiad mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 4 yn parhau yn is nag ydyw mewn ysgolion eraill tebyg. Hefyd, mae gormod o fwlch rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched yn y dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg neu'r Gymraeg.

O gymharu â 2012, bu gwelliant yng nghanlyniadau'r ysgol yn y trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu'r Gymraeg a mathemateg yn 2013. Roedd perfformiad yn 2013 uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg ac yn agos i'r deilliannau wedi'u modelu, ond yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Bu gwelliant pellach yn 2014, gyda pherfformiad uwchlaw cyfartaledd y teulu eto ond yn parhau yn y 50% is.

Bu patrwm tebyg o welliant yn y dangosydd pynciau craidd er 2012. Yn 2014, roedd perfformiad yn y dangosydd hyn uwchlaw cyfartaledd y teulu ac yn y 50% uwch.

Bu gwelliant hefyd yn y trothwy lefel 2, ond roedd perfformiad yn 2013 yn y 25% isaf a hefyd yn is na chyfartaledd y teulu. Yn 2014, bu gwelliant sylweddol yn y dangosydd hwn, gan osod yr ysgol yn y 50% uwch ac yn uwch na chyfartaledd y teulu.

Ers 2012, bu patrwm o welliant parhaus yn y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio ac yn y trothwy lefel 1. Yn 2013 a 2014, roedd perfformiad yn y ddau ddangosydd hyn yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ac uwchben cyfartaleddau'r teulu.

Ers 2012, mae perfformiad yn Saesneg lefel 2 wedi gwella. Fodd bynnag, mae perfformiad yn parhau'n is na chyfartaleddau'r teulu ac yn y 25% isaf yn 2013 a 2014. Mae perfformiad Cymraeg lefel 2 hefyd wedi gwella ac yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu. Yn 2014, roedd perfformiad yn y dangosydd hwn yn gosod yr ysgol yn 25% uchaf am y tro cyntaf ers 2011. Mewn mathemateg lefel 2, bu gwelliant yn 2013 a 2014, gan osod yr ysgol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu ond yn y 50% is..

Yn 2013 a 2014, roedd y bwlch perfformiad y bechgyn a'r merched yn fwy na bwlch y teulu yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu'r Gymraeg a mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i berfformiad sylweddol is y bechgyn yn y Gymraeg a Saesneg o gymharu â'r merched.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r disgyblion yn adalw eu dysgu blaenorol yn gywir ac yn adeiladu ar hyn yn effeithiol. Mae llawer yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus wrth gynllunio ymchwiliadau a llunio casgliadau. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o'r gwersi, nid oes gan y disgyblion afael ddigon cadarn ar gysyniadau pynciol sylfaenol.

**Argymhelliad 2: Datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd arwyddocaol cryf yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion.

Mae'r ysgol wedi creu rhaglen gynhwysfawr o sesiynau boreol i roi cymorth llythrennedd a rhifedd ychwanegol i bob disgybl. Mae hon yn fenter werthfawr sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau darllen a rhifedd disgyblion yng nghyfnod allweddol 3.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg ar draws y pynciau yn gynhwysfawr. Mae'r ysgol wedi datblygu llyfryn iaith o ansawdd uchel i gynorthwyo'r disgyblion i adnabod nodweddion a diben ffurfiau gwahanol o ysgrifennu. Mae'r adrannau pwnc wedi cynllunio'n fanwl i gyflwyno tasgau ysgrifenedig yn cwmpasu amryw o ffurfiau ac arddulliau ar draws y pynciau. Mewn llawer o bynciau, mae'r athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion i ail-ddrafftio er mwyn gwella safon y cynnwys a'r iaith. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cynhyrchu darnau estynedig o ysgrifennu o safon uchel ar draws y pynciau. Fodd bynnag, mae camgymeriadau sillafu a gramadegol elfennol yn parhau yng ngwaith ysgrifenedig Saesneg ychydig o'r disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu medrau darllen yn y Gymraeg a Saesneg. Mae rhan fwyaf o'r athrawon ar draws y pynciau yn cynllunio'n ofalus i ddatblygu gallu'r disgyblion i ddethol gwybodaeth berthnasol a defnyddio dyfyniadau i gefnogi eu barn. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn rhugl yn y Gymraeg ac mae gan lawer ohonynt fedrau darllen Saesneg cadarn. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o'r disgyblion, yn enwedig y rhai lleiaf abl, yn betrusgar wrth ddod ar draws geiriau Saesneg anghyfarwydd.

Mae'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau rhif ar draws ystod o bynciau wedi datblygu'n dda iawn. Mae'r ysgol wedi datblygu adnoddau o ansawdd uchel i sicrhau cysondeb athrawon wrth gyflwyno medrau rhif mewn pynciau. Mae adrannau penodol yn cyfrannu tasgau bwriadus i ymestyn a datblygu medrau rhif. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda mewn ystod o bynciau. Maent yn gallu plotio graffiau'n gywir ac mae'r disgyblion mwyaf abl yn gallu dethol y llinell ffit mwyaf addas i amlygu patrymau o fewn y data. Mae gan lawer o ddisgyblion afael gadarn ar sut i gyfnewid mesuriadau wrth ddefnyddio unedau gwahanol.

Mae darpariaeth i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm yn gadarn ac mae buddsoddiad sylweddol wedi bod mewn meddalwedd a chyfarpar i gynorthwyo athrawon i gynnig profiadau ehangach i ddisgyblion. Bellach, mae bron pob adran yn darparu tasgau pwrpasol i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

**Argymhelliad 3: Gwella'r cysondeb yn ansawdd y marcio ac adborth i rieni**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o strategaethau effeithiol i wella cysondeb yn ansawdd y marcio ac adborth i rieni.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno rhaglen o hyfforddiant manwl i'r athrawon ar sut i farcio a rhoi adborth effeithiol. Yn ogystal, mae athrawon ar draws yr adrannau wedi derbyn cyfleoedd buddiol i graffu ar farcio adrannau eraill a rhannu arferion da. Mae rheolwyr wedi monitro ansawdd y marcio ar draws yr adrannau'n drylwyr. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o athrawon bellach yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac mae llawer yn rhoi arweiniad clir i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith. Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn ffocysu'n gyson ar faterion llythrennedd a chynnig arsylwadau adeiladol ar sut i wella agweddau yn ymwneud ag atalnodi a gramadeg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd ysgrifennu estynedig y disgyblion a'u dealltwriaeth o'r hyn sydd angen ei wneud i fireinio a gwella'u medrau.

Mewn llawer o adrannau, mae disgyblion yn ail-ddrafftio gwaith yn rheolaidd, gan ystyried cyngor a sylwadau i gynhyrchu gwaith o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw'r athrawon yn rhoi adborth digon defnyddiol i sicrhau gwelliannau yn ansawdd gwaith y disgyblion. Yn ychwanegol, nid yw ychydig iawn o'r athrawon yn rhoi digon o gyfle i ddisgyblion ymateb i adborth.

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn hyfforddi'r disgyblion yn drwyadl ar sut i hunanasesu ac asesu gwaith eu cymheiriaid. Mewn llawer o wersi, mae'r disgyblion yn dyfnhau eu dysgu drwy asesu gwaith eu hunain neu waith eu cymheiriaid. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw'r disgyblion yn cynhyrchu targedau sydd yn ddigon penodol na defnyddiol i'w cynorthwyo i wneud gwelliannau.

Ers yr arolygiad craidd, mae rheolwyr yr ysgol wedi cynnig hyfforddiant manwl i staff, rhannu arfer dda a chyflwyno trefniadau monitro i sicrhau cysondeb yn ansawdd adroddiadau yr ysgol. Bellach, mae'r adroddiadau'n cynnwys arfarniadau clir o gynnydd y disgyblion ac yn cynnig arweiniad buddiol iawn i ddisgyblion a rhieni.

**Argymhelliad 4: Cryfhau rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r llywodraethwyr wedi datblygu eu dealltwriaeth o berfformiad ysgol er mwyn gweithredu fel cyfeillion beirniadol mwy effeithiol. Bellach, mae ganddynt ffocws clir ar godi safonau ac maent yn gorff hunanfeirniadol.

Mae'r llywodraethwyr yn derbyn cyflwyniadau defnyddiol gan aelodau'r uwch dîm rheoli a'r arweinwyr craidd i wella'u hymwybyddiaeth o berfformiad cyfredol. O ganlyniad, mae ganddyn nhw ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau a'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol.

Mae'r strwythur newydd addas yn cynnwys y 'cabinet', sydd yn trafod materion strategol a chyllid, a dau bwyllgor i drafod materion sydd yn flaenoriaethau penodol i'r ysgol. Mae hyn wedi sicrhau bod y llywodraethwyr yn canolbwyntio ar y prif faterion i'w gwella yn eu trafodaethau. Mae penderfyniad y corff llywodraethol i gynyddu'r uwch dim rheoli wedi cynyddu cynhwysedd arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau atebolrwydd.

Nodwedd gref o waith y llywodraethwyr yw'r cyswllt agos sydd ganddyn nhw bellach gyda phob adran yn yr ysgol. Mae'r cyfarfodydd cyswllt wedi arwain at well ddealltwriaeth o waith yr adrannau a galluogi'r llywodraethwyr i herio'n bwrpasol, ynghyd â chynnig cefnogaeth.

**Argymhelliad 5: Cryfhau a chysoni atebolrwydd rheolwyr canol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad.

Cryfhaodd yr ysgol yr uwch-dîm rheoli drwy benodi dau aelod newydd er mwyn cryfhau'r atebolrwydd ar reolwyr canol yr ysgol.

Erbyn hyn, mae rhaglen gynhwysfawr a rheolaidd o gyfarfodydd rhwng y rheolwyr canol a'u rheolwyr llinell, yn ogystal â chyfarfodydd gyda'r pennaeth a'u llywodraethwyr cyswllt sydd wedi cryfhau a chysoni atebolrwydd rheolwyr canol. Cyflwynwyd templed cytûn i gofnodi trafodaethau'r cyfarfodydd, gyda chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol yn gweithredu fel yr eitem gyntaf ar bob agenda. Mae hyn wedi sicrhau bod cyswllt cryf rhwng y cyfarfodydd ac arweinwyr yn gweithredu ar gamau'r cyfarfodydd diwethaf. Yn ogystal, mae safonau, dysgu ac addysgu a chynnydd yn erbyn argymhellion yr arolygiad craidd yn eitemau cyson ar agenda bob cyfarfod. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i wneud cynnydd cryf yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cyflwyno polisi a threfniadau newydd addas ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'r amcanion datblygu yn deillio o'r adolygiadau perfformiad bellach yn llawer mwy miniog ac yn gweddu'n dda i nodau cynllun gwella'r ysgol a chynlluniau datblygu adrannau unigol.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant i reolwyr canol, yn cynnwys sesiynau ar olrhain a dadansoddi data ac arweiniad ar hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella. Trefnwyd hyfforddiant llwyddiannus ar sut i arfarnu a monitro gwaith aelodau eu hadrannau mewn modd cynhaliol, cytbwys ac effeithiol. O ganlyniad, mae gan arweinwyr canol ddealltwriaeth gadarn o berfformiad ac ansawdd y ddarpariaeth yn eu hadrannau.

Er mwyn cefnogi'r ychydig o reolwyr canol sydd yn newydd i'r ysgol, mae aelodau'r uwch dim rheoli a rheolwyr canol mwy profiadol wedi cynnig arweiniad a chefnogaeth fuddiol iawn. Erbyn hyn, mae cysondeb ac ansawdd y rheolwyr canol yn gryfder yn arweinyddiaeth yr ysgol.

**Argymhelliad 6: Cryfhau'r cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella ar lefel adrannol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cryfhau'r cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella ar lefel adrannol yn sylweddol.

Mae'r ysgol wedi darparu rhaglen hyfforddiant lwyddiannus i arweinwyr adrannol i gryfhau eu dealltwriaeth o sut i arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a dadansoddi data perfformiad. Yn ychwanegol, mae'r ysgol wedi cynhyrchu meini prawf llwyddiant defnyddiol i arfarnu ansawdd yr addysgu a'r marcio a sicrhau bod arweinwyr yn gytûn ynghylch sut i'w cymhwyso. O ganlyniad, mae bron pob adran bellach yn cynhyrchu adroddiad hunan arfarnu dilys manwl a chynhwysfawr.

Bellach, mae cysylltiad clir rhwng deilliannau adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau gwella adrannol. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau datblygu adrannol yn cynnwys camau gweithredu synhwyrol, meini prawf llwyddiant penodol, terfynau amser, costau priodol a thargedau meintiol i fesur cynnydd. Mae'r cynllunio manwl hwn wedi cyfrannu at welliannau yn ansawdd yr addysgu ac adborth i ddisgyblion ar draws yr adrannau. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad y disgyblion yn enwedig yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Cymraeg, neu Saesneg a mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3.

**Argymhelliad 7: Sicrhau bod y disgybl lywodraethwyr yn llwyr ymgymryd â'u rôl**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad.

Ers dechrau ar eu rôl wedi'r arolygiad craidd, mae'r disgybl lywodraethwyr wedi profi i fod yn gyswllt effeithiol rhwng y corff llywodraethol a'r disgyblion. Erbyn hyn, maent yn mynychu cyfarfodydd y llywodraethwyr yn rheolaidd ac yn cynrychioli disgyblion yr ysgol yn llwyddiannus.

Mewn cyfarfodydd, mae'r disgybl lywodraethwyr wedi cyflwyno safbwynt y disgyblion yn effeithiol ar nifer o faterion. Maent wedi cyfrannu yn werthfawr at drafodaethau ynghylch ansawdd yr addysgu ac wedi dylanwadu ar gynnwys y polisïau marcio a gwaith cartref yr ysgol. Yn ogystal, maent wedi cyfrannu'n fuddiol at welliannau mewn materion sydd yn effeithio ar les disgyblion, megis trefniadau ciwio yn y ffreutur. Mae'r llywodraethwyr bellach yn fwy ymwybodol o safbwyntiau ac anghenion y disgyblion yn sgil cyfraniad y disgybl lywodraethwyr yn y cyfarfodydd.

**Argymhellion**

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at gyflawni'r argymhellion arolygu nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.